



Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

Criw Celf

Datblygu Doniau yn y Celfyddydau Gweledol a
Chymhwysol i bobl ifanc o oedran ysgol



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn [Bolisi Cyfle Cyfartal](#).

Y Criw Celf : Datblygu Doniau yn y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol i bobl ifanc o oedran ysgol.

Mae'r Criw Celf yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau celfyddydol, gan weithio y tu allan i'r ysgol ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol mewn amrywiaeth o orielau a safleoedd penodol. Yn yr un modd ag y bydd cerddorfa neu gôr yn rhoi cyfle i gerddorion ifanc ymuno â'i gilydd i berfformio, mae'r Criw Celf yn cynnig cyfle i ddylunwyr ac artistiaid gweledol ifanc awyddus dreulio amser gyda'u cyfoedion a chyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector i ddatblygu eu dawn.

Mae'r Criw Celf yn canolbwyntio ar bobl ifanc y mae athrawon ysgol wedi nodi bod ganddynt botensial neu ddawn arbennig yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol. Mae'r rhaglen yn cyflwyno arlwy cyfoethog ac amrywiol o gelfyddydau iddynt (e.e. peintio, cerflunio, serameg, gwaith gwydr, gwaith mewn tri dimensiwn, argraffu, ffilm/fideo, ffotograffiaeth a chreu gemwaith) ac yn agor eu llygaid i ehangder y cyfleoedd gyrfa y gall maes Celf a Dylunio arwain atynt. Mae'n cynnwys teithiau achlysurol i orielau a digwyddiadau arbennig. Mae pob person ifanc yn cael pecyn celf sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau celf o ansawdd, y gallant eu defnyddio gartref rhwng y sesiynau. Mae hefyd gyfleoedd i waith creadigol y bobl ifanc gael ei arddangos mewn lleoliadau proffesiynol.

Rhaglen waith wedi'i thargedu yw'r Criw Celf, ac nid prosiect cyfranogi â mynediad agored. Ei nod yw datblygu a meithrin doniau ifanc ym maes Celf a Dylunio, ac mae wedi'i hanelu at blant o oedran ysgol sydd wedi dangos dawn neu botensial arbennig yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol. Mae'r Criw Celf yn cyfrannu'n fawr at agenda Mwy Abl a Thalentog (MAT) Llywodraeth Cymru. Mae cefnogi datblygiad y rheiny sy'n dangos dawn ac addewid arbennig i wrthsefyll rhwystrau a all ddigwydd ar gyfer datblygu talentau yn rhan allweddol o "Er budd pawb...", Cynllun Corfforaethol 2018 - 2023, Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r rhaglen Criw Celf yn gweithio gydag ysgolion i fynd ati'n rhagweithiol i ganfod a meithrin pobl ifanc fwy abl a thalentog ym maes Celf a Dylunio.

Yn deillio o syniad gwreiddiol gan Gyngor Sir Gwynedd, mae Criw Celf bellach wedi tyfu'n sylweddol ac wedi mireinio ei weledigaeth. Erbyn hyn, mae'n cynnwys mwy na 215 o artistiaid proffesiynol a phartneriaethau â 60 o bartneriaid ym maes y celfyddydau yn ogystal â dros 12 Sefydliad Addysg Bellach / Uwch, ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddarparu ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru.

Prif amcanion y Criw Celf yw:

- Canfod a meithrin doniau a photensial pobl ifanc ym maes y celfyddydau gweledol a chymhwysol a darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt gwrdd â'u cyfoedion a gweithio gyda hwy
- Creu cyswllt effeithiol â'r Agenda Mwy Abl a Thalentog (MAT) mewn ysgolion, gan ategu gwaith athrawon Celf a Dylunio mewn ysgolion, a chefnogi'r gwaith hwnnw

- Hybu'r addewid i datblygu talent ifanc yn "Er budd pawb...", Cynllun Corfforaethol 2018 - 2023, Cyngor Celfyddydau Cymru
- Sicrhau bod artistiaid ifanc talentog o gefndiroedd amrywiol a difreintiedig yn cael mynediad i'r cymorth ymarferol sydd ei angen arnynt i gymryd rhan yn llwyr yn y rhaglen hon
- Darparu cyfleoedd eithriadol o ansawdd uchel i bobl ifanc yng Nghymru weithio ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol mewn ystod o gyfryngau celfyddydol y tu allan i'r ysgol
- Mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu sgiliau a dilyn cynnydd pob person ifanc yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol
- Darparu gwybodaeth a chynngor ymarferol i artistiaid ifanc awyddus am yr ystod o yrfaeodd sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol
- Codi proffil gwaith pobl ifanc, gan ddarparu cyfleoedd i gyfranogwyr y Criw Celf arddangos eu gwaith mewn orielau proffesiynol yn ogystal ag ar-lein
- Datblygu dull sy'n gosod esiampl o ymdrin â gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, orielau a sefydliadau ym maes y celfyddydau sy'n bartneriaid, gan rannu'r arferion gorau yn genedlaethol
- Defnyddio [pecyn cymorth gwerthuso'r Criw Celf](#) i fesur effaith y rhaglen ar y cyfranogwyr ifanc, eu hysgolion a'u teuluoedd, y partneriaid cyflawni a'r agenda MAT yng Nghymru.

Yr hyn yr hoffem ei gyflawni gyda chyllid Criw Celf:

- Darparu cyfleoedd o ansawdd uchel, wedi'u targedu ar gyfer disgyblion/myfyrwyr MAT i ddatblygu potensial artistig o Gyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 5) i Safon Uwch
- Rhannu arferion gorau ar draws Cymru
- Gwerthuso'n systematig effaith y rhaglen yn genedlaethol drwy ddull cyffredin, gan ddefnyddio pecyn cymorth gwerthuso Criw Celf
- Cefnogi'r broses o ddatblygu modelau partneriaeth a chyflawni cynaliadwy i annog twf a buddsoddiad
- Ehangu'r model ar draws Cymru er mwyn sicrhau ei fod ar gael i bob person ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol.

Mae pedwar cyfnod penodol yn rhan o'r Criw Celf, sy'n darparu rhaglenni i bobl ifanc rhwng 7 a 18 oed, sef:

Enw'r cyfnod	Grŵp Blwyddyn Ysgol
Criw Celf Cynradd	Blynyddoedd 5 a 6
Criw Celf Uwchradd	Blynyddoedd 7, 8 a 9
Criw Celf Portffolio	Blynyddoedd 10 ac 11
Criw Celf Codi'r Bar	Blynyddoedd 12 a 13

Beth yw nodweddion cais da am gyllid Criw Celf?

Rhaid i bob cais am gyllid Criw Celf ddangos ei fod yn gallu cynnig:

- Rhaglen ddychmygus sydd wedi'i chynllunio'n dda ac sydd ag arlwy cryf o artistiaid proffesiynol sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o gyfryngau. Dylai'r rhaglen ychwanegu at yr hyn y gellir ei gynnig yng nghyd-destun yr ysgol / ystafell ddosbarth, a mynd y tu hwnt i hynny
- Proses recriwtio wedi'i strwythuro ac a ddatblygwyd gan artistiaid mewn partneriaeth ag ysgolion i ganfod carfan o bobl ifanc o bob cefndir sy'n arbennig o abl a thalentog ym maes Celf a Dylunio neu sy'n dangos potensial cyffrous yn y pwnc. Dylai hon fod yn broses flynyddol er mwyn adnewyddu, gwella amrywiaeth a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gymryd rhan er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc newydd gymryd rhan yn y rhaglen
- Model rheoli prosiectau cadarn sy'n sicrhau gwerth rhagorol am arian ac sy'n dwyn ynghyd sgiliau consortiwm o bartneriaid perthnasol, gan sicrhau bod eu rolau a'u cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir
- Ymrwymiad amlwg i ymgysylltu â phartneriaid cenedlaethol drwy werthuso, mynd i gyfarfodydd cenedlaethol, rhannu arferion gorau a chefnogi proffil cenedlaethol Criw Celf a'i effaith.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Dim ond sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n gymwys i wneud cais am gyllid Criw Celf (sylwch na all gweithwyr proffesiynol creadigol unigol wneud cais).

Mae grantiau o £5,001 hyd at uchafswm o £100,000 y flwyddyn ar gael i gonsortia o bartneriaid i ddarparu rhaglenni o weithgareddau Criw Celf ar y cyd ar draws pob un o'r 4 rhanbarth isod. Rhaid i geisiadau ddangos sut, drwy weithio mewn partneriaeth, y gallant ddarparu gweithgareddau o ansawdd uchel yn y celfyddydau, model effeithlon, a'r gwerth gorau ar gyfer y buddsoddiad.

Y Gogledd

Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam

[Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a arweinir gan Gyngor Sir y Fflint](#)

Y Canolbarth a'r Gorllewin

Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe

[Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a arweinir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#)

Y De-ddwyrain

Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen

[Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a arweinir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)

Y De Canol

Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg

[Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a arweinir gan Actifyddion Artistig](#)

Byddwn yn hepgor y rheol 'un cais' ar gyfer y cynigion hyn er mwyn helpu i hyrwyddo a meithrin datblygiad y dull consortiwm o weithredu. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar allu sefydliad i reoli nifer o brosiectau pan fyddwn yn ystyried y ceisiadau hyn.

Siaradwch â ni cyn gwneud cais

Rhaid i chi drafod eich cynnig gyda'r Swyddog Datblygu sy'n gyfrifol am raglen y Criw Celf yn eich rhanbarth chi cyn i chi wneud cais:

- Cerys Thomas (rhanbarthau y De-ddwyrain a'r De Canol) Cerys.Thomas@arts.wales
- Ceri Charles-Durrant (Y Gogledd) CeriCharles.Durrant@celf.cymru
- Sian Griffiths (Y Canolbarth a'r Gorllewin) Sian.Griffiths@celf.cymru

Os ydych yn un o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, ac rydym yn cytuno bod eich gweithgaredd arfaethedig yn cyd-fynd â thelerau eich cytundeb ariannu â Chyngor Celfyddydau Cymru, gall eich cais fod yn ychwanegol at unrhyw geisiadau Loteri eraill y gall eich swyddog arweiniol fod wedi cytuno arnynt gyda chi.

Gallwn ystyried ariannu hyd at uchafswm o 75% o gyfanswm cost gymwys y prosiect. Gallai arian partneriaeth ddod o amryw o ffynonellau, gan gynnwys:

- Arian partneriaid eu hunain
- Incwm a enillwyd
- Cymorth ariannol neu ar ffurf nwyddau neu wasanaethau gan bartneriaid

- Consortia Addysg Rhanbarthol
- Ymddiriedolaethau a Sefydliadau
- Nawdd

Hoffem sicrhau bod rhaglenni'n gallu cynllunio y tu hwnt i un flwyddyn academaidd. Am y rheswm hwn, rydym yn gwahodd ceisiadau am hyd at £200,000 fesul rhanbarth i gwmpasu dwy flynedd o weithgareddau o fis Medi 2019 hyd fis Awst 2021 (uchafswm o £100,000 fesul rhanbarth fesul blwyddyn). Cyfeiriwch at y bandiau isod i gael rhagor o wybodaeth am y disgwyliadau mewn perthynas â lefelau cyllid.

Lefelau Cyllid (Medi 2019 i Awst 2021)

Yn achos ceisiadau hyd at £200,000 – I fod yn gymwys i wneud cais ar y lefel hon, bydd angen i chi ddangos hanes rhagorol o ddarparu gweithgareddau celfyddydau gweledol o ansawdd uchel i bobl ifanc. Bydd eich rhaglen arfaethedig yn gynhwysfawr, gan gynnig gweithgareddau i gyfranogwyr ifanc dawnus ym mhob categori oedran ac ar draws pob ardal awdurdod lleol yn eich rhanbarth. Dylai roi i'r cyfranogwyr hynny raglen datblygiad celfyddydol ddofn a pharhaus dros y flwyddyn.

Yn achos ceisiadau rhwng £61,000 a £100,000 – mae'r ceisiadau ar y lefel hon yn debygol o fod ar gyfer rhanbarthau sy'n datblygu eu model Criw Celf, wedi iddynt gwblhau cyfnodau peilot llwyddiannus. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar o leiaf ddau grŵp oedran ac yn ymestyn ar draws o leiaf dair ardal awdurdod lleol yn eich rhanbarth.

Yn achos ceisiadau hyd at £60,000 – mae'r ceisiadau ar y lefel hon yn debygol o fod ar gyfer rhanbarthau sydd naill ai yng nghyfnodau cynnar y broses o ddatblygu rhaglen Criw Celf neu'n canolbwyntio ar grŵp oedran penodol. Mae angen i chi fod yn darparu gweithgareddau mewn o leiaf ddwy ardal awdurdod lleol.

Rhaid i **bob cais** gael ei gyflwyno gan gonsortiw m sy'n cynrychioli partneriaeth o sefydliadau sy'n cydweithio'n effeithiol ar draws rhanbarth. Mae'n debyg y bydd consortiw m yn cynnwys ysgolion, artistiaid, orielau, awdurdodau lleol, eich Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol a sefydliadau Addysg Uwch a Phellach.

Pwy sy'n cael cyflwyno cais

Dim ond consortia sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n cael gwneud cais i'r cynllun hwn.

Rhaid i'r ymgeisydd arweiniol a'r corff atebol sy'n cynrychioli'r consortiw m gael:

- Dogfen lywodraethu ysgrifenedig fel cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth, neu erthyglau cwmni (oni bai eich bod yn gorff statudol fel ysgol, cyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol).

- Rhaid i'ch dogfen lywodraethu ddangos bod darparu gweithgareddau celfyddydol yn un o'ch amcanion, a chynnwys cymal diddymu priodol sy'n nodi'r hyn a fyddai'n digwydd i'r asedau sy'n weddill yn eich sefydliad (ar ôl talu pob dyled a rhwymedigaeth), pe bai'n dod i ben
- Hanes o ddarparu gweithgareddau celfyddydol i bobl ifanc
- Polisi Cyfleoedd Cyfartal y mae eich corff llywodraethu wedi'i adolygu yn y tair blynedd ddiwethaf, ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Rhaid i'r polisi hwn ddangos bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hadlewyrchu yn eich rhaglenni celfyddydol ac yn eich gwaith cynllunio a gweithredu o dydd i ddydd.
- Cyfrif banc yn enw eich sefydliad y mae angen o leiaf ddau berson arno i awdurdodi trafodiadau. (Fel rheol, gelwir y rhain yn 'llofnodwyr y cyfrif'). Ystyr 'trafodiadau' yma yw unrhyw achosion o dynnu arian, neu drosglwyddo, neu daliadau a wneir o gyfrif y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys llofnodi sieciau a defnyddio cyfrif banc ar y rhyngrwyd.
- Rhaid i chi fod â Pholisi Diogelu / Amddiffyn Plant sydd hefyd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd ddiwethaf, ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Rhaid i'r polisi hwn ddangos bod materion diogelu wedi'u hadlewyrchu yn eich gwaith cynllunio a gweithredu o ddydd i ddydd.

Ni fyddwch yn gallu gwneud cais am gyllid os ydych mewn diffyg yng nghyswllt unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd gofyn i chi gadarnhau bod eich sefydliad yn bodloni'r gofynion cymhwysedd hyn ar ddechrau'r broses ymgeisio ar-lein.

Nodyn am lywodraethu

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb o ddsbarthu arian cyhoeddus o ddifrif, a dyna pam y mae'r modd yr ydych yn rhedeg eich sefydliad yn bwysig i ni. Mae angen i ni fod yn sicr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n gywir a'i fod yn gallu rheoli grant yn briodol. Ni fyddwn yn dyfarnu grant os byddwn yn canfod risg na fydd arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

Sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion cymhwysedd yw un o'r ffyrdd yr ydym yn gwneud hynny. Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch dogfen lywodraethu gyda'ch cais. Mae hwn yn ein helpu i wirio eich bod yn gymwys i gyflwyno cais i ni a gall ein helpu yn ein hasesiad o'ch cais. Bydd angen hefyd i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'ch cais i ddangos bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad y mae angen o leiaf ddau berson arno er mwyn awdurdodi trafodiadau. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn gwirio'r wybodaeth hon drwy ofyn i chi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn yn gallu rhyddhau unrhyw daliadau tan i ni gael y wybodaeth hon a'i gwirio.

Pryd y dylid cyflwyno cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Criw Celf ar gyfer gweithgareddau sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2021 fydd 5.00pm **ddydd Iau 4 Ebrill 2019**.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad o fewn 9 wythnos waith ar ôl y dyddiad cau.

Ymgeisio

Gellir ymgeisio am y cynllun hwn drwy ein gwefan, drwy glicio ar <http://www.arts.wales/what-we-do/funding/apply/sefydliadau?diablo.lang=cym>.

Dylech ddewis y maes Cymryd Rhan.

Os nad ydych wedi cyflwyno cais i ni am gyllid o'r blaen, bydd angen i chi greu cyfrif er mwyn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais.

Ar dudalen 2 o'r ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym am eich cynnig ar gyfer rhaglen drwy ofyn i chi ateb y cwestiynau asesu a ganlyn. Mae terfyn o 750 gair ar gyfer pob adran.

Dylech ateb y cwestiynau a ganlyn yn eich cais:

Disgrifio eich prosiect

- Gallwch adael y blwch hwn yn wag

Darparu ansawdd celfyddydol

- Rhowch amlinelliad clir o'r rhaglen greadigol ar gyfer cyfranogwyr y Criw Celf, gan gynnwys yr artistiaid, ystod y cyfryngau yn ogystal ag orielau partner sy'n cymryd rhan er mwyn dangos tystiolaeth o sut y bydd rhagoriaeth gelfyddydol yn cael ei chyflawni. Efallai yr hoffech gyfeirio at dystiolaeth o lwyddiant drwy waith gwerthuso diweddar.

Cynllunio a Rheoli Prosiect Llwyddiannus

- Dylech nodi manylion yr holl bartneriaid yr ydych yn gweithio gyda hwy ac egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau – yr hyn y bydd pob un yn ei gyflawni a'i arbenigedd/adnoddau i wneud hynny
- Dywedwch wrthym am eich dull o ymdrin â'r broses recriwtio er mwyn canfod disgyblion/myfyrwyr a mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad.
- Nodwch linell amser glir sy'n cwmpasu cynllunio, darparu, a gwerthuso.

Creu budd i'r cyhoedd

- Yn yr adran hon, dylech nodi cyd-destun y Criw Celf yn eich rhanbarth chi a sut y mae'n cyd-fynd â nodau celfyddydol ehangach eich rhanbarth a'r cynnig ehangach o ran y celfyddydau gweledol a chymhwysol
- Eglurwch y sail resymegol i'ch dymuniad i ddarparu'r gweithgaredd hwn sydd wedi'i dargedu; faint o bobl ifanc, grwpiau oedran ac awdurdodau lleol a fydd yn cael budd o'r rhaglen hon
- Dywedwch wrthym am eich gweledigaeth a sut y byddwch yn ei datblygu ac yn ei chynnal yn y dyfodol.

Ariannu Prosiect Llwyddiannus

- Yn yr adran hon, rhaid i chi ddangos sut mae eich dull o ganfod adnoddau i'r rhaglen yn sicrhau gwerth am arian ac yn cefnogi twf a chynaliadwyedd yn y dyfodol
- Dywedwch wrthym am unrhyw dybiaethau yr ydych wedi'u gwneud wrth ddatblygu eich cyllideb
- Pa mor realistig a phosibl yw eich amcanestyniadau ynghylch incwm a fydd yn cael ei ennill? Sut y byddwch yn codi unrhyw arian partneriaeth o fath arall?
- Nodwch fanylion y cyfraniad ariannol y mae pob partner yn ei wneud at y rhaglen

Atodiadau

Ar dudalen 6 o'r ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi uwchlwytho ystod o ddogfennau ategol, y mae ein system ar-lein yn eu galw'n 'atodiadau':

- Eich dogfen lywodraethu (oni bai eich bod yn gorff statudol)
- Cyllideb eich Prosiect
Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Criw Celf i gael templed cyllideb prosiect wedi'i deilwra.
- Eich Cynllun Marchnata
- Byddwn yn disgwyl i'ch cynllun marchnata gynnwys amserlen sy'n nodi pryd y bydd gwahanol fathau o weithgareddau marchnata / recriwtio yn cael eu cynnal. Byddwn hefyd yn adolygu'r costau marchnata yr ydych yn eu cynnwys yng nghyllideb eich prosiect i sicrhau eu bod yn briodol i'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud.
- O leiaf ddau lythyr cefnogi o sylwedd sy'n cymeradwyo eich prosiect gan drydydd

partïon annibynnol nad ydynt yn cael eu talu fel rhan o'r rhaglen

- Eich cyfrif banc
- Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad y mae angen o leiaf ddau berson a enwir arno i awdurdodi trafodiadau. Os ydych yn gorff statudol, uwchlwythwch ddogfen wag yn lle hynny.
- Gwybodaeth ategol o fath arall
- Uwchlwythwch gadarnhad ysgrifenedig gan bob partner consortiwm sy'n nodi ei ymrwymiad i'r rhaglen a gwerth unrhyw gymorth ariannol neu ar ffurf nwyddau neu wasanaethau.
- Gallwch ddefnyddio'r categori hwn hefyd i gyflwyno unrhyw dystiolaeth o fath arall neu ddogfennau eraill yr hoffech eu rhoi i ni. Gallwch ddefnyddio unrhyw categori fwy nag unwaith os hoffech uwchlwytho rhagor o ddogfennau.

A hoffech chi gysylltu â ni?

Gall ein Swyddogion Datblygu Criw Celf eich helpu gyda'ch cais. Nhw yw eich pwynt cyswllt cyntaf a gallant eich helpu i gael gafael ar ein hystod lawn o gyngor, gwybodaeth, a gwasanaethau.

Cerys Thomas (rhanbarthau'r De-ddwyrain a'r De Canol) Cerys.Thomas@arts.wales

Ceri Charles-Durrant (Y Gogledd) CeriCharles.Durrant@celf.cymru

Sian Griffiths (Y Canolbarth a'r Gorllewin) Sian.Griffiths@celf.cymru

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Drwy anfon e-bost at Swyddog Datblygu Criw Celf eich rhanbarth

Dros y ffôn rhwng 9.00am a 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener: 0845 873 4900

Drwy anfon neges destun at 07797 800 504

Nodyn atgoffa am y dyddiad cau

Y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau hyn fydd **5.00pm ddydd Iau 4 Ebrill 2019**. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad o fewn 9 wythnos waith ar ôl y dyddiad cau.

Pob lwc gyda'ch cais.